

Cyngor Sir Ynys Môn

Polisi a Chanllaw ar gyfer Firysau a Gludir yn y Gwaed

Fersiwn 1.0 Tachwedd 2017

Ynghylch y polisi hwn

Mae'r Polisi a'r Canllaw hwn ar gyfer sefyllfaoedd yn y gweithle lle tybir bod modd dod i gyswllt â firysau a gludir yn y gwaed (BBV) o fewn Cyngor Sir Ynys Môn. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth i holl weithwyr Cyngor Sir Ynys Môn.

Byddwn yn defnyddio'r acronym BBV ('*blood borne viruses*') yn y canllaw hwn er mwyn bod yn fyr. Pan fyddwn yn sôn am waed dylid cymryd bod hynny'n cynnwys hylifau risg uchel y corff oni bai y nodir fel arall.

Mae adnoddau ar wefan y Cyngor yn cefnogi'r Polisi hwn.

Hanes adolygu

Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o'r newidiadau
1.0	Tachwedd 2017	
1.0	Mai 2019	Dim newidiadau
1.0	Ionawr 2021	Dim newidiadau

Dyddiad yr adolygiad nesaf	
Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu yn:	Mai 2021
Fe wneir yr adolygiad gan:	Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

Manylion Cyswllt: 01248 752820

[Health&Safety@ynysMôn .gov.uk](mailto:Health&Safety@ynysMôn.gov.uk)

Rydym yn fodlon darparu'r polisi hwn mewn ffurfiau eraill os gofynnwch am hynny. Defnyddiwch y manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg.

This document is available in English.

Cynnwys

- 1.0 Cefndir**
- 2.0 Gofynion Statudol**
- 3.0 Dulliau Rheoli**
- 4.0 Rheoli achosion o gyswllt damweiniol â gwaed/hylifau corfforol**
- 5.0 Cael gwared â gwastraff**
- 6.0 Archwilio, Monitro ac Adolygu**
- 7.0 Gwybodaeth Bellach**

Atodiad

- Atodiad 1 Ffurflen Gytuno/Gwrthod Imiwneiddiad Hepatitis B**
- Atodiad 2 Llythyr Cais am Imiwneiddiad**
- Atodiad 3 Firws a Gludir yn y Gwaed – Cofnod Cyswllt Posib**

1.0 Cefndir

Firysau a gludir yn y gwaed yw firysau y mae rhai pobl yn eu cario yn eu gwaed, a gallant achosi clefyd difrifol mewn rhai pobl, neu ychydig/dim symptomau mewn pobl eraill. Gall y firws ledaenu i berson arall, p'un a yw'r sawl sy'n cario'r firws yn sâl ai peidio.

Y prif firysau BBV sydd o bryder yw:

- firws hepatitis B (HBV), firws hepatitis C a firws hepatitis D, sydd oll yn achosi hepatitis, sef clefyd ar yr iau;
- firws imiwno-ddiffygiant dynol (HIV) sy'n achosi syndrom diffyg imiwnedd (AIDS), gan effeithio ar system imiwnedd y corff.

Mae'r firysau hyn hefyd i'w cael mewn hylifau corfforol eraill ar wahân i waed, er enghraifft semen, hylif o'r wain, a llaeth y fron. Mae risg bychan iawn y gallai hylifau neu ddeunyddiau eraill o'r corff drosglwyddo haint BBV, megis wrin, ysgarthion, poer, chwys, dagrau a chwd, ond mae'r risg yn uwch os oes gwaed yn y rhain. Dylech fod yn ofalus bob tro gan nad yw hi wastad yn amlwg bod gwaed yn bresennol.

Oherwydd natur rhai gwasanaethau yng Nghyngor Sir Ynys Môn mae posibilrwydd y bydd gweithwyr yn dod i gyswllt â gwaed neu hylifau corfforol eraill.

Dyma'r math o waith lle gallant ddod i gyswllt â gwaed/hylifau corfforol:

- Cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth
- Addysg – wrth ddelio gyda gwaedu gan ddisgyblion sy'n cario haint heb yn wybod. Gallai staff hefyd ddod ar draws nodwyddau a daflwyd gan dresbaswyr ar dir yr ysgol.
- Gwasanaethau Glanhau
- Cymorth Cyntaf
- Glanhau Strydoedd
- Cynnal a chadw Parciau
- Gwaredu gwastraff
- Cynnal a chadw Toiledau Cyhoeddus
- Cynnal a chadw ac Archwilio Tai
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Adfer a Thrwsio Cerbydau
- Rheoli Pla

(Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr)

Yn y gweithle, gall cyswllt uniongyrchol ddigwydd trwy gael eich heintio'n ddamweiniol gan offer miniog, megis nodwydd neu wydr wedi torri. Gall gwaed heintus hefyd ledaenu trwy gyswllt â briwiau agored, crafiadau ar y croen, croen sydd wedi'i niweidio oherwydd cyflwr fel eczema, neu trwy ddiferion yn taro'r llygaid, y trwyn neu'r geg.

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn ddyletswydd tuag at ei weithwyr i'w hamddiffyn rhag y risgiau sy'n bresennol yn y gwaith hwn.

2.0 Gofynion Statudol

Mae **Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (1974)** yn rhoi dyletswydd ar gyflogwyr i amddiffyn eu gweithwyr rhag peryglon sy'n gysylltiedig â'u gwaith.

O dan y **Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) 2002 (fel y'u diwygiwyd)** mae'n rhaid i gyflogwyr gynnal asesiad o unrhyw waith lle mae modd i weithwyr ddod i gyswllt â sylweddau sy'n beryglus i iechyd, a hynny cyn i unrhyw waith ddechrau. Mae'r Rheoliadau'n berthnasol i beryglon biolegol. Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i roi mesurau rheoli ar waith er mwyn atal, neu lle nad yw hynny'n ymarferol, rheoli'n ddigonol y posibilrwydd y bydd gweithwyr yn dod i gyswllt â sylweddau sy'n beryglus i iechyd.

Dyletswydd y cyflogwr yw sicrhau na chaiff unrhyw waith ei wneud lle mae modd i weithwyr ddod i gyswllt ag unrhyw sylwedd sy'n beryglus i iechyd, oni bai bod asesiad o'r risg wedi'i gynnal.

O dan y **Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (fel y'u diwygiwyd)** mae'n rhaid i gyflogwyr gwblhau asesiadau risg addas a digonol ar gyfer yr holl weithgareddau mae'n eu gwneud.

O dan y **Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydon a Digwyddiadau Peryglus 2013 (RIDDOR)** mae'n rhaid i gyflogwyr roi gwybod i'r awdurdod gorfodi petai damwain yn digwydd yn y gwaith i weithiwr a bod hynny'n arwain at farwolaeth, anaf difrifol neu'n golygu nad yw'r gweithiwr yn gallu gwneud ei waith arferol am saith diwrnod neu fwy.

3.0 Dulliau Rheoli

Asesu'r risg

Pan ganfyddir fod peryglon o firsau yn y gwaed a'u bod yn gysylltiedig â'r gwaith, mae'n rhaid i'r Cyngor asesu unrhyw risgiau cysylltiedig. Os gwelir bod y risg yn sylweddol, dylid adnabod camau gyda'r bwriad o atal neu reoli'r risgiau. Gall rheolwyr ystyried y cwestiynau a ganlyn wrth asesu'r risg i weithiwr o ganlyniad i firsau yn y gwaed:

- Ydi hi'n debygol y caiff y gweithiwr gyswllt rheolaidd gyda gwaed neu hylifau corfforol yn ystod gweithgareddau gwaith?
- Ydi'r gweithiwr yn ymgymryd â gweithdrefnau risg uchel sy'n cynnwys pigladau i'r croen e.e. profion siwgr y gwaed i bobl ddiabetig?
- A oes gan unrhyw ddefnyddwyr gwasanaeth y mae'r gweithiwr yn gweithio efo nhw ddiffyg hysbys yn eu system imiwn?
- Ydi'r defnyddwyr gwasanaeth mewn grŵp risg uchel a/neu a oes ganddynt arferion byw anniogel (megis bod yn gaeth i gyffuriau neu arferion rhyw anniogel)?
- A oes risg uchel i'r gweithiwr dderbyn anaf a fyddai'n ei heintio o ganlyniad i nodwyddau cudd neu nodwyddau a daflwyd?

Lleihau'r risg

Y prif ddull amddiffyn yw defnyddio mesurau rheoli haint ac arferion hylendid da. Dylai cyflogwyr ddilyn arferion gweithio diogel wrth ddelio gyda gwaed neu hylifau corfforol sydd wedi arllwys.

Os oes risg o ddod i gyswllt â BBVs, mae'r mesurau a ganlyn yn berthnasol er mwyn atal neu reoli'r risg, ond efallai y bydd angen i chi addasu'r rhain i'ch amgylchiadau lleol er mwyn sicrhau system waith ddiogel:

- gwahardd bwyta, yfed, ysmegu a rhoi colur ymlaen mewn ardaloedd gwaith lle mae risg o halogiad.
- atal tyllau yn y croen (*puncture wound*), toriadau a chrfiadau rhag digwydd, yn enwedig ym mhresenoldeb gwaed neu hylifau corfforol.
- pan fo'n bosib, osgoi'r defnydd o, neu gyswllt ag offer miniog megis nodwyddau, gwydr, metel ac ati. Os nad oes modd eu hosgoi, cymryd gofal wrth afael ynddynt a chael gwared arnynt.
- ystyried defnyddio dyfeisiau sy'n ymgorffori nodweddion diogelwch, megis dyfeisiau nodwyddau mwy diogel a siswrn efo llafnau â blaenau crwn.
- gorchuddio unrhyw doriad yn y croen gan ddefnyddio dresin sy'n gwrthsefyll dŵr, a menig addas.
- amddiffyn y llygaid a'r geg trwy ddefnyddio miswrn/gogls/sbectol ddiogelwch a masg os yw sbasio'n bosib.
- osgoi halogiad trwy ddefnyddio dillad gwarchod sy'n gwrthsefyll dŵr.
- gwisgo bŵts rwber neu orchudd plastig dros esgidiau os yw'r llawr neu'r ddaear yn debygol o fod wedi'u halogi.
- defnyddio arferion hylendid sylfaenol da, megis golchi dwylo.
- rheoli arwynebau rhag cael eu heintio trwy gyfyngiant a defnyddio gweithdrefnau diheintio priodol.
- cael gwared yn ddiogel ar wastraff sydd wedi'i halogi.

Brechu rhag Hepatitis B

Mae imiwneiddiad (brechiad) ar gael rhag HBV ond nid rhag firysau eraill a gludir yn y gwaed. Yr asesiad risg ddylai bennu a oes angen i weithiwr gael ei frechu. Dylid ei weld fel mesur ychwanegol yn unig i atgyfnerthu mesurau rheoli eraill. Fel cyflogwr, dylech sicrhau bod brechlynnau ar gael yn rhad ac am ddim i weithwyr, os oes eu hangen. Argymhellir eich bod yn cadw cofnod brechiad.

Mae Ffurflen Gytuno/Gwrthod Imiwneiddiad Hepatitis B a Llythyr Cais i'w gweld yn **Atodiad 1 a 2**.

Gallwch weld rhagor o wybodaeth am imiwneiddio mewn cyhoeddiadau gan y Pwyllgor Cynghori ar Bathogenau Peryglus ac Adrannau Iechyd y DU (gweler 'Deunydd darllen pellach').

Ni ellir gorfodi gweithwyr i gael eu brechu. Mewn sefyllfaoedd lle mae aelod o staff yn dewis peidio cael ei frechu, efallai na fydd hyn yn ei atal rhag ymgymryd â'i ddyletswyddau arferol.

Pan fo gweithwyr yn gwrthod cael eu brechu, bydd angen iddynt gwblhau a llofnodi

Ffurflen Gytuno/Gwrthod Imiwneiddiad Hepatitis B, gweler **Atodiad 1**. Mae'n rhaid i'w Rheolwr Llinell Iofnodi'r ffurflen hon hefyd a rhaid ei rhoi ar ffeil bersonol y gweithiwr.

Yn yr un modd, ar ôl mynd trwy gwrs o frechlynnau rhag Hepatitis B, efallai y bydd canran fechan o staff yn cael gwybod (ar ôl profion) nad yw'r broses imiwneiddio wedi bod yn effeithiol. Mewn amgylchiadau o'r fath bydd y gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol ar y cyd â'u Rheolwr Llinell a staff AD yn rhoi cyngor i unigolion am y ffordd orau o weithredu.

Cadw Cofnodion

Pan fo asesiad risg y Cyngor yn adnabod imiwneiddio fel mesur rheoli priodol:

- Dylid cofnodi unrhyw weithgaredd gwaith 'risg uchel' lle mae imiwneiddio'n cael ei argymhell.
- Dylai gweithwyr dderbyn cyngor gan y sawl sy'n darparu'r imiwneiddiad (Meddyg Teulu fel arfer), ynghylch unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig ag imiwneiddio.
- Mae'n rhaid trefnu'r broses imiwneiddio ar gyfer y gweithiwr yn ystod ei amser gwaith ac ar ddim cost i'r gweithiwr. Dylid nodi fod yna oblygiadau cost fel arfer i'r Gwasanaeth gan nad yw'r rhaglen frechu hon ar gael am ddim.

Dylai rheolwyr gadw cofnodion am:

- asesiadau risg o weithgareddau a meysydd gwaith lle mae angen brechu'r gweithiwr
- ffurflenni ymwadiad ar gyfer gweithwyr sy'n gwrthod y rhaglen frechu
- statws imiwneiddio a dyddiadur ar gyfer ailimiwneiddio i weithwyr.

Mae'n rhaid i'r rheolwr roi gwybod i'r gweithiwr am lefel y risg yn eu lle gwaith a darparu gwybodaeth, hyfforddiant a chyfarwyddiadau ynghylch sut i weithio gyda'r risg hon o gyswllt. Dylai'r gweithiwr gwblhau'r rhaglen imiwneiddio y cytunwyd arni a rhoi gwybod i'w reolwr am unrhyw reswm pam na chwblhawyd y rhaglen hon.

4.0 Rheoli cyswllt damweiniol â gwaed/hylifau corfforol

Er gwaethaf gweithdrefnau diogel, mae damweiniau'n gallu digwydd lle mae angen cymorth cyntaf, asesiad ar ôl y ddamwain, ac os yw'r asesiad yn dangos hynny, imiwneiddiad. Gall imiwneiddio ar ôl damwain atal rhai heintiau rhag codi os bu cyswllt sylweddol â gwaed neu hylifau corfforol sydd wedi heintio. Yn yr amgylchiadau hyn, fe wneir y penderfyniad i imiwneiddio mewn ymgynghoriad â Meddyg Teulu neu Adran Argyfwng leol.

Yn wyneb y ffaith nad oes imiwneiddiad ar gael ar gyfer firysau megis HIV a Hepatitis C, mae'n hanfodol fod arferion gweithio diogel yn cael eu mabwysiadu bob amser, yn ogystal â hylendid da a defnyddio Offer Gwarchod Personol yn gywir os oes perygl wedi'i ganfod, er mwyn osgoi sefyllfaoedd o gyswllt sylweddol rhag digwydd.

Mae'r diffiniad o gyswllt sylweddol yn cynnwys y canlynol:

- Gwaed ar rwyg/crafiad – pan fo briw agored neu grafiad yn cael ei halogi â gwaed unigolyn arall (e.e. briw a achoswyd gan offer miniog fel rasel neu nodwydd sydd wedi'i halogi â gwaed).
- Gwaed ar bilen ludiog – pan fo'r bilen ludiog (h.y. leinin y llygaid, trwyn neu'r geg) yn cael ei halogi â gwaed oddi wrth unigolyn arall.
- Hylif corfforol ar rwyg/crafiad – pan fo briw agored neu grafiad yn cael ei halogi â hylif corfforol (poer, wrin, semen) unigolyn arall (e.e. brathiad sy'n tynnu gwaed)..

Byddai cyswllt dibwys yn cynnwys:

- Hylif corfforol ar bilen ludiog – Pan fo pilen ludiog yn dod i gyswllt â hylif corfforol unigolyn arall, mae risg mewn theori y gallai hynny drosglwyddo'r firws. Fodd bynnag, nid ystyrir fod hyn yn gyswllt o bwys oherwydd y ffaith na chadarnhawyd erioed bod firws wedi trosglwyddo yn y fath fodd.

Noder, fodd bynnag, os oes gwaed yn amlwg yn yr hylif corfforol yna dylid categoreiddio'r digwyddiad fel cyswllt sylweddol.

Petai rhywun yn cael cyswllt sylweddol â firws a gludir yn y gwaed, mae'n rhaid dilyn y camau canlynol:

- a) Cymorth cyntaf priodol. Dylid golchi'r briw yn drylwyr gyda sebon a dŵr heb ei sgrwbio. Os oes gwaed neu hylifau corfforol wedi sbasio ar bilen ludiog y llygaid, trwyn neu'r geg dylid eu rinsio gyda digonedd o ddŵr. Os cafwyd twll yn y croen, dylid gadael y gwaed i lifo'n rhydd o'r briw ond ni ddylid ei sgrwbio.
- b) Mae'n rhaid adrodd cyn gynted â phosib i'r rheolwr llinell er mwyn gallu cwblhau Rhan 1 y Cofnod Cyswllt Posib. Mae'r Cofnod Cyswllt Posib i'w weld yn yr Atodiad (**Atodiad 3**)
- c) Fel gweithiwr ac er mwyn eich iechyd eich hun dylech adrodd cyn gynted â phosib (o fewn 12 awr) i'r Meddyg Teulu neu'r Adran Ddamweiniau ac Argyfwng leol os digwyddodd hyn tu allan i oriau. Os mai nodwydd/chwistrell sydd wedi achosi'r anaf, dylid mynd i nôl y nodwydd/chwistrell mewn modd diogel os yn bosib, heb risgïo anaf pellach. Ar ôl nol y nodwydd/chwistrell dylid ei rhoi mewn cynhwysydd addas a mynd â fo efo'r gweithiwr i'r Adran Ddamweiniau ac Argyfwng a'i roi i'r Swyddog yn yr Adran/Practis Meddyg Teulu er mwyn i staff labordy yr ysbyty eu dadansoddi ymhellach.
- d) Cwblhewch Ffurflen Adrodd am Ddamwain (ADIR). Cofiwch, er i chi ddod i gyswllt, mae'r tebygolrwydd y bydd y firws yn trosglwyddo dal yn isel. Fodd bynnag, efallai y bydd gwersi i'w dysgu o'r digwyddiad i osgoi'r un peth rhag digwydd eto e.e. Oedd hwn yn ddigwyddiad unigol? Pam ddigwyddodd o? Oedd yna weithdrefnau cywir mewn lle ac oeddynt yn cael eu dilyn? Oes yna ddiffygion yn y gweithdrefnau presennol?
(Mae ffurflenni ADIR ar gael ar Monitor neu gan eich rheolwr llinell)
- e) Bydd yr adran ddamweiniau ac argyfwng yn penderfynu a oes angen proffylaxis ar ôl cyswllt (yn unol â chanllawiau ac argymhellion yr Adran Iechyd).

Byddai'n ddoeth darparu copiau o'r 'Weithdrefn a Chofnod Cyswllt Posib' i weithwyr maes h.y. gellir ei roi yn eu cerbydau gwaith.

5.0 Gwaredu gwastraff

Dylid cynnal asesiad risg, fel sy'n ofynnol gan COSHH, ar unrhyw wastraff sy'n cael ei greu. Mae rhai mathau o wastraff yn cael eu categoreiddio fel gwastraff clinigol ac mae rheolaethau llym ar gyfer ei gasglu, ei storio a'i waredu. Mae gwastraff clinigol yn cynnwys gwastraff sy'n cynnwys gwaed neu hylifau corfforol eraill yn bennaf neu'n rhannol, swabiau neu ddresin, chwistrellau, nodwyddau neu offer miniog eraill, ac oni bai y caiff y rhain eu gwneud yn ddiogel, gallant fod yn beryglus i'r person sy'n dod i gyswllt â hwy.

Tybir yn gyffredinol nad yw gwastraff hylendid dynol a gynhyrchir mewn llefydd fel ysgolion a swyddfeydd (ac yn y cartref) yn wastraff clinigol gan nad yw'r risg o haint yn ddim uwch nag ar gyfer gwastraff domestig. Fodd bynnag, efallai y byddai gan y sawl sy'n gwneud yr asesiad risg wybodaeth leol sy'n golygu na allant wneud y dybiaeth hon.

6.0 Archwilio, Monitro ac Adolygu

Bydd effeithiolrwydd y canllaw hwn yn cael ei asesu trwy ddadansoddi patrymau adrodd am ddigwyddiadau yn lleol (ADIR).

Bydd y canllaw hwn yn cael ei fonitro a'i adolygu'n flynyddol, neu os bydd deddfwriaeth yn newid.

7.0 Gwybodaeth Bellach

Y Pwyllgor Cynghori ar Bathogenau Peryglus – *Protection against blood-borne infections in the workplace: HIV and hepatitis* The Stationery Office 1995
ISBN 978 0 11 321953 7

Pamffled *Consulting employees on health and safety: A guide to the law* INDG232
HSE Books 1996 (copi sengl am ddim neu becynnau o 15 wedi eu prasio ISBN 978 0 7176 1615 2)

Fersiwn y we: www.hse.gov.uk/pubns/indg232.pdf

Rheoli sylweddau sy'n beryglus i iechyd (Pumed Argraffiad). *The Control of Substances Hazardous to Health Regulations 2002 (as amended). Approved Code of Practice and guidance L5* (Pumed Argraffiad) HSE Books 2005 ISBN 978 0 7176 2981 7

Taflen Wybodaeth y Gwasanaethau Iechyd, *The Reporting of Injuries, Diseases and Dangerous Occurrences Regulations 1995: Guidance for employers in the healthcare sector HSIS1* HSE Books 1998 www.hse.gov.uk/healthservices/information.htm

Canllawiau Adran Iechyd y DU ar gyfer gweithwyr gofal iechyd clinigol: *Protection against infection with blood-borne viruses* Yr Adran Iechyd 1998

Yr Adran Iechyd, *Immunisation against infectious disease* 2006 The Stationery Office 2006 ISBN 978 0 11 322528 6

Atodiadau

Atodiad 1

Ffurflen Gytuno/Gwrthod Imiwneiddiad Hepatitis B

Ticiwch un os gwelwch yn dda:

Ydw, rydw i eisïau derbyn y brechlyn Hepatitis B		
Cafodd fy nghwestiynau eu hateb gan y darparwr e.e. Meddyg Teulu neu Adran Argyfwng		
Rydw i eisïau cymryd rhan yn y rhaglen frechu. Rwy'n deall bod hyn yn cynnwys tri phigiad ar gyfnodau penodedig dros gyfnod o 6 mis. Rwy'n deall nad oes unrhyw sicrwydd y deuf yn imiwn i Hepatitis B ac y byddaf o bosib yn dioddef sgil-ffaith negyddol o ganlyniad i'r brechlyn.		
	Dyddiad rhoddwyd	Rhoddwyd gan
Dos cyntaf		
Ail ddos		
3ydd dos		
Dyddiad i'w dderbyn nesaf		

Nac ydw, dydw i ddim eisïau derbyn y brechlyn Hepatitis B.	
Rwy'n deall oherwydd fy mod yn dod i gyswllt â gwaed neu ddeunydd heintus arall posib yn fy ngwaith, y gallaf fod mewn risg o ddal y firws Hepatitis B (HBV). Cefais y cyfle i gael fy mrechgu gyda'r brechlyn Hepatitis B heb unrhyw gost i mi. Fodd bynnag, rwy'n gwrthod y brechlyn Hepatitis B am y tro. Rwy'n deall trwy wrthod y brechlyn, fod yna dal risg uwch i mi ddal Hepatitis B, sy'n glefyd difrifol.	
Os byddaf yn y dyfodol eisïau cael fy mrechgu gyda'r brechlyn Hepatitis B, rwy'n deall y gallaf dderbyn y gyfres o frechlynnau yn rhad ac am ddim.	

Enw'r Gweithiwr:	
Rhif Cyflog:	
Gwasanaeth :	
Adain :	
Llofnod:	
Dyddiad :	
Rheolwr Llinell:	
Llofnod y Rheolwr Llinell :	
Dyddiad:	

Mae'n rhaid rhoi copi o'r ffurflen hon i AD a'i chadw yn y ffeil bersonol.

Atodiad 2 Llythyr Cais am Imiwneiddiad

CYNGOR SIR YNYS MÔN /
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
SWYDDFA'R SIR / COUNCIL OFFICES
LLANGEFNI
YNYS MÔN / ANGLESEY
LL77 7TW
ffôn / tel: (01248)
ffacs / fax: (01248)
E-bost – E-mail:
Ein Cyf – Our Ref.
Eich Cyf – Your Ref.

Annwyl Feddyg

Ynglŷn â: Dod i gyswllt â Firysau a Gludir yn y Gwaed yn y Gweithle

Enw:

Cyfeiriad:

Teitl Swydd:

Yn dilyn asesiad risg, canfuwyd fod risg uchel i'r unigolyn uchod ddod i gyswllt â firws a gludir yn y gwaed oherwydd ei waith.

Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gellid gwneud trefniadau i imiwneiddio'r unigolyn rhag y Firws Hepatitis B.

Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn talu am unrhyw gost sy'n gysylltiedig â'r driniaeth hon. Anfonwch yr anfoneb am unrhyw dâl i'r **Adran Gyllid**, Cyngor Sir Ynys Môn yn y cyfeiriad uchod os gwelwch yn dda.

(Noder: os na roddir anfoneb gall y gweithiwr hawlio'r taliad yn ôl trwy ddangos derbynneb am y taliad)

Diolch am eich cymorth.

Pennaeth Gwasanaeth

Atodiad 3

FIRYSAU A GLUDIR YN Y GWAED – COFNOD O GYSWLLT POSIB

Adran A (i'w chwblhau gan y Rheolwr Llinell)

1. MANYLION Y GWEITHWR SYDD WEDI CAEL CYSWLLT

Enw		Gwryw		Benyw		Dyddiad Geni	
Teitl Swydd		Lle Gwaith				Rhif ffôn	
Pigiad HB o'r blaen?		Ansicr/Na		1 dos		2 ddos	3+ dos
Dyddiad y dos diwethaf							

2. MANYLION Y DIGWYDDIAD

Math o gyswllt:			
Briw/crafiad ar y croen		Blaen nodwydd/offer miniog arall/brathiad	
Arall			
Pilen ludiog		Llygaid/trwyn/ceg	
Arall			
Deunydd dan sylw:			
	Gwaed:	Poer:	Wrin:
Arall:			
Manylion cryno am y digwyddiad gan gynnwys lleoliad:			

3. MANYLION Y PERSON TARDDIAD (y person sy'n darddiad y gwaed/hylif corfforol)

Enw a manylion cyswllt y person hwn (os ydynt yn hysbys):

4. MANYLION Y RHEOLWR LLINELL

Enw		Rhif ffôn.	
-----	--	---------------	--

ADRAN B (i'w chwblhau yn yr ysbyty gan y Swyddog Adran Ddamweiniau/Meddyg)
 Mae'r gweithiwr hwn wedi cael cyngor i fynd i'w feddygfa neu'r Adran Ddamweiniau ac Argyfwng leol er mwyn gallu dilyn y canllawiau ac argymhellion cyfredol ar broffylaxis ar ôl cyswllt â haint a gludir yn y gwaed*. Er mwyn sicrhau y gellir dilyn i fyny'n effeithiol ar yr achos hwn yn y gwaith, llenwch y manylon isod os gwelwch yn dda a dychwelyd y ffurflen hon i'r claf. Byddwn yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad yn fawr. Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Rheolwr Llinell yn Adran A, Rhan 4 y ffurflen hon.

5. CYNGHORI PROFFYLACIS AR ÔL CYSWLLT

RHODDWDYD CYNGOR RHEOLAETHOL GAN					
Enw :					
Ysbyty :					
Brechlyn HB HBIG PEP HIV CWNSELA					
Brechlyn HB	HBIG	HIV PEP	Cwnsela		
Cwrs cyflym	1 dos	Heb ddangos	Wedi trafod risgiau BBV		
Dos atgyfnerthu	Dim	Dangoswyd a rhoddwyd	Wedi trefnu cwnsela		
2 ddos 1/12 ar wahân		Cynigwyd ond wedi'i wrthod	Dim		
Dim					
Os rhoddwyd HBIG:	Llwyth:		Dos:		

6. DILYN I FYNY

Damweiniau ac Argyfwng:		Meddyg Teulu:		Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol:	
-------------------------	--	---------------	--	-----------------------------------	--

7. SYLWADAU

--

* *Immunisation against infectious diseases 1992 HMSO ISBN 0-11-321815-X*

* *Exposure to hepatitis b virus: guidance on post-exposure prophylaxis: PHLS Sub Committee: CDR Review, Vol 2 Review no. 9 1*

Mae'n rhaid rhoi copi o'r ffurflen hon i AD a'i chadw yn y ffeil personol.